CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-2023

1.0 CYFLWYNIAD

Pentref arfordirol yw'r Felinheli wedi ei leoli ar y Fenai rhwng Caernarfon a Bangor yng Ngwynedd. Yn hanesyddol mae gwreiddiau'r pentref yn yr uno a dau bentref bychan, Aberpwll lle mae'r Afon Heilyn yn cyrraedd y Fenai ac ardal Thafarnygrisiau lle mae'r Eglwys Santes Fair. Daeth enw'r pentref i fodoli gan fod melin ar geg yr afon Heilyn.

Gyda dyfodiad y diwydiant llechi, fe newidiodd yr Arglwydd Asseton-Smith yr new i Port Dinorwig, fe newidiwyd enw'r pentref i'r gwreiddiol wedi cau'r chwarel gan y Cyngor Cymuned.

Mae poblogaeth y Felinheli yn 2330 yn ôl Cyfrifiad 2021 gyda 78.6% o bobl dros dair blwydd oed gydag un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 maen anghenraid ar Gynghorau Cymuned i gynhyrchu adroddiadau blynyddol cyn gynted a phosib wedi diwedd y flwyddyn ariannol.

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf Cyngor Y Felinheli a'i bwrpas yw dangos sut mae'r Cyngor yn chwarae rhan bwysig o fewn y gymuned gan ei wneud yn lle pleserus i drigolion drwy gyfrannu at eu lles yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol.

2.0 CYNGOR

Yn Mai 2022, fe gafwyd etholiadau lleol yng Ngwynedd, roedd yr etholiadau yn cynnwys etholiadau Cynghorau Cymuned. Ni chafwyd etholiad Cyngor Cymuned yn y Felinheli er hynny fe ddaeth 8 cynghorydd yn ôl i eistedd am dymor arall; fe roedd 5 sedd wag. Yn dilyn ymgyrch recriwtio yng Ngŵyl y Felin llwyddwyd i recriwtio 5. Yn anffodus yn ystod y flwyddyn fe ymddiswyddodd 2. Mae'r canlynol mewn swydd ar ddiwedd y flwyddyn.

Cynghorydd Iwan Huws (Cadeirydd)
Cynghorydd Eifion Williams (Is-Gadeirydd)
Cynghorydd Daniel Williams
Cynghorydd Emyr Gareth
Cynghorydd Llŷr Evans
Cynghorydd Cynog Prys
Cynghorydd Dafydd Huws
Cynghorydd Nel Huws
Cynghorydd Meleri Jones
Cynghorydd Elenid Glyn
Cynghorydd Eleri Wyn Thomas

Mae ar hyn o bryd dwy sedd wag a gobeithir gwneud ymgyrch recriwtio unwaith eto yng Ngŵyl y Felin ym mis Gorffennaf 2023 i drio llenwi'r seddi gwag.

Mae gan y Cyngor bedwar Pwyllgor:

- Cyllid, Cyflogaeth, Polisïau a Gwefan
- Asedau
- Llwybrau Cyhoeddus, Lon Las a phriffyrdd
- Y neuadd Goffa Chloc

Mae'r Cynghorwyr yn perthyn i ddau o'r pwyllgorau uchod.

Mae gan y Cyngor un Clerc/Swyddog Ariannol Heather Jones a gallwch gysylltu â hi drwy e-bost clerfelinheli@aol.com neu drwy ffonio 07867982518.

Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn cyflogi Gofalwraig i'r Neuadd Goffa, gallwch gysylltu â hi drwy'r Clerc.

3.0 GWYBODAETH ARIANNOL

Mae incwm a gwariant o fewn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar y 31 o Fawrth 2023 fel a ganlyn:

Balans a ddygwyd ymlaen o 2021-2021	36768.40
Incwm o drethiant lleol	46000.00
Incwm arall	14534.11
Is-gyfanswm	**97302.51**
Costau Staff	13215.18
Taliadau	55219.22
Is-gyfanswm	**68434.40**
Balans a gariwyd ymlaen i 2023-2024	**28868.11**

Bydd y cyfrifon yn cael eu rhoi ymlaen i Gyngor Gwynedd ar gyfer archwiliad mewnol cyn y byddent yn cael eu hanfon at Awdit Cymru am archwiliad allanol. Dylai'r cyfrifon gael eu cyfeirio at fel "rhai sydd heb eu harchwilio hyd yma".

4.0 PERTHYNAS A CHYNGOR GWYNEDD

Mae'r Felinheli yn yr un ward a Bethel ac mae'r ward yn cael ei gynrychioli gan ddau gynghorydd sef Sasha Williams ac Iwan Huws sydd hefyd yn Gadeirydd y Cyngor Cymuned. Bydd y Cynghorydd Sasha William yn

mynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned drwy wahoddiad yn unig. Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn gwybodaeth ar faterion Cyngor Gwynedd sy'n gysylltiedig â'r Felinheli gan y Cynghorydd Iwan Huws pan yn briodol.

5.0 CWYNION

Ni chafwyd yr un cwyn ynglŷn â gwaith y Cyngor Cymuned o fewn y flwyddyn.

6.0 HYFFORDDIANT SEFYDLU

Mae gan y Cyngor hyfforddiant sefydlu ei hun, sydd yn cael ei gyflwyno gan Gynghorydd a'r Clerc. Fe gafwyd y Cynghorwyr newydd oedd wedi eu cyfethol yr hyfforddiant o fewn 3 mis o dderbyn eu swydd. Rhan o'r hyfforddiant yw cyflwyno eglurhad ar y Cod Ymddygiad, mae copi yn cael ei roi iddynt yn eu cyfarfod cyntaf pan faent yn arwyddo'r datganiad derbyn y swydd.

7.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

Yn ystod y flwyddyn fe ystyriwyd oddeutu 23 cais.

8.0 CAE CHWARAE LAN Y MÔR

Fe gwblhawyd prosiect y Cyngor i osod offer newydd gogyfer plant oed hyn Ysgol gynradd o'r diwedd. Nid oedd y prosiect heb ei sialensiau ond mae'r rhain bellach tu ôl i ni ac mae tystiolaeth yn dangos bod yr offer yn plesio.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwyd Bendigedig a Chyngor Gwynedd i osod bwrdd picnic i rai sydd yn defnyddio cadair olwyn o fewn y Cae Chwarae, gobeithir cwblhau'r prosiect yn 2023.

9.0 TORRI GWAIR

Mae'r Cyngor Cymuned gyda chytundeb torri gwair gyda Chyngor Gwynedd i sicrhau bod ymylon y ffyrdd ac ardaloedd gwyrdd yn cael eu cadw yn dwt gyda thorri'r gwair oddeutu 6 gwaith yn ystod y tymor tyfu. Mae'r gwair hefyd yn cael ei gasglu.

10.0 TOILEDAU CYHOEDDUS

Mae'r Cyngor Cymuned yn sicrhau bod y cyfleusterau yn parhau ar agor yn y pentref gan ymrwymo i gynllun gyda Chyngor Gwynedd drwy dalu £4000 yn flynyddol. Yn ystod y flwyddyn fe osodwyd cylch bywyd ar y toiledau, mae hwn yn ychwanegol i'r diffibilwr sydd yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned.

11.0 ASEDAU

Mae'r Cyngor Cymuned a chyfrifoldeb am yr asedau canlynol:

Y Neuadd Goffa
Y Cloc

Mainc ger yr Ysgol Gynradd
Mainc ger Carreg Goch
Mainc ger Stepiau Cei
Maes Parcio tu ôl i Stryd Bangor
Safle Moria
Cysgodfan Bws Ger y Nant
Cysgodfan Bws ger safle'r hen Fodurdy Menai
Cysgodfan Bws Halfway – ochr Bangor
Cysgodfan Halfway – ochr Caernarfon
Cysgodfan Bws gyferbyn a Cwrt Menai
Cysgodfan Bws Aberpwll – ochr Bangor
Cysgodfan Bws Aberpwll – ochr Caernarfon
Cysgodfan Bws gyferbyn a Cerrig yr Afon
Cysgodfan Bws ger Cerrig yr Afon
Cysgodfan Bws ger yr Eglwys ochr Caernarfon
Cysgodfan gyferbyn a siop Spar
Cysgodfan Bws Y Wern
Hen giosg BT ar Ffordd Lan Môr
Mynwent Cymunedol
Offer Cyfrifiadurol

12.0 Y NEUADD GOFFA

Yn dilyn diwedd y pandemig roedd yn bleser i weld y Neuadd yn cael ei defnyddio eto. Mae'r Neuadd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio gan Clwb Badminton y Felinheli, Brownies a Guides, Dosbarthiadau Dawnsio a'r Clwb Bowlio. Yn ystod y flwyddyn mae'r Neuadd wedi cael ei ddefnyddio gogyfer partïon plant ag oedolion. Cafwyd gwasanaeth Sul y Cofio gan ddiweddu'r gwasanaeth ger y Cloc. Fe arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Jeffrey Hughes gyda chymorth oddi wrth y Cynghorydd Dan Williams a'r Clerc.

Roedd yn bleser hefyd i groesawu achlysuron Nadolig gan Gŵyl y Felin a'r Ysgol Gynradd.

13.0 CHYMORTH ARIANNOL

Yn flynyddol mae'r Cyngor Cymuned yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth grwpiau a chymdeithasau o'r pentref ac yn 2022 - 2023 fe dderbyniodd y canlynol arian fel cydnabyddiaeth o'u cyfraniad at les y trigolion lleol a thu allan.

Fel rhan o Rheolau Sefydlog y Cyngor mae Mynwent yr Eglwys yn derbyn £500 yn flynyddol er mwyn cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

Y Goraid	£200
Cyfeillion yr Ysgol	£1100
CPD Y Felinheli	£300
CPD Ieuenctid y Felinheli	£2000
PARCH	£500

Gŵyl y Felin	£100
Pwyllgor Regata	£500
CIC Bethania	£150
Rainbows	£50
Guides	£200
Brownies	£200
Pwyllgor yr Eisteddfod	£250
Bwyd Bendigedig	£500

14.0 MYNWENT

Derbynion y fynwent gynnal a chadw da drwy gydol y tymor tyfu gyda gwair yn cael ei dorri yn fisol. Yng nghyfarfod mis Mawrth y Cyngor penderfynwyd ystyried ffioedd y fynwent a chafodd eu hystyried ddiwethaf yn 2019. Bydd y ffioedd canlynol yn bodoli o Fai'r 1af 2023.

Plot a Chladdedigaeth
Trigolion Lleol - £300
Eraill £550
Ail agor bedd
Trigolion Lleol - £150
Eraill- £250
Plot a chladdu Llwch
Trigolion Lleol - £200
Eraill - £450
Ail agor plot claddu llwch
Trigolion Lleol - £100
Eraill - £200
Codi Carreg
Trigolion Lleol - £150
Eraill- £150
Ymchwil - £75

15.0 SAFLE MORIA

Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol o'r olygfa druenus sydd yn bodoli i safle Moria ar hyn o bryd a prosiect eleni i'r Cyngor yw gwneud gwaith trwsio ar y safle a phlanu planhigion. Gobeithir bydd y gwaith yn cychwyn yn fuan yn mis Ebrill.

16.0 LLWYBRAU CYHOEDDUS

Mae'r Cyngor Cymuned yn archwilio Llwybrau Cyhoeddus y pentref yn flynyddol. Mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau bod trigolion lleol yn gallu cael mynediad iddynt drwy sicrhau bod cynnal a chadw yn digwydd dwywaith o fewn y tymor tyfu ond hefyd os bydd angen ar ôl yr archwiliad blynyddol yn derbyn y llwybrau yn cael y trydydd toriad.

17.0 CANLYNIAD

Mae cyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd i gymryd rhan, gall hyn gael ei wneud mewn person neu yn rhithiol ar yr ail nos Fawrth am 7 yn yr hwyr o bob mis ac eithrio mis Awst. Mae gwahoddiad agored i bobl fod yn bresennol ond gadewch y Clerc wybod os ydych am fynychu. Gallwch fod yn bresennol mewn person neu yn rhithiol drwy wneud cais i'r Clerc am linc.

Mae holl cofnodion a gwybodaeth ariannol y cyfarfodydd i'w gweld ar wefan y Cyngor Cymuned sef https://www.felinheli.org